**EITEM AR YR AGENDA: 16**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

**GWEITHDREFN CWYNION – CAM 3**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân i argymhellion y Panel Gweithredol ar weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion a gyflwynir i'r Awdurdod o dan gam 3 o'r weithdrefn gwynion.

## Cefndir

**2.** Mabwysiadwyd y weithdrefn gwynion gan yr Awdurdod yn 1996. Mae'n rhestru tri cham, a'r trydydd oedd y gallai'r person ofyn i'r mater gael ei ddwyn i sylw 'r Awdurdod Tân, sef pwyllgor o gynghorwyr etholedig. Bydd y Pwyllgor hwn yn ystyried y mater ac yn cymryd y camau priodol i ddatrys y gŵyn. Mae'r polisi'n datgan yn glir na fydd y weithdrefn gwynion yn cael gwared ar unrhyw hawl sydd gan yr unigolyn i ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn yr Awdurdod – byddai hyn hefyd yn cynnwys yr hawl i gwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus petai honiad o gamweinyddu.

**3.** Mae Dogfen Polisïau a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth (SAPPO) dyddiedig Awst 2005 a thaflen i'r cyhoedd am y weithdrefn gwynion yn adlewyrchu'r polisi hwn. Mae'r ddau'n cyfeirio at y gŵyn yn mynd yn uniongyrchol i'r awdurdod tan ac y bydd yr achwynydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Nid oes yr un o'r dogfennau hyn yn rhestru'n fanwl sut y byddid yn ymdrin a chwyn yn y trydydd cam. Nid oes yr un gŵyn wedi cyrraedd y cam hwn er bod cais am wrandawiad trydydd cam a'r cyfle i annerch aelodau'r Awdurdod Tân yn bersonol wedi ei dderbyn yn ddiweddar.

**Cyngor**

**5.** Mae'n rhaid llunio gweithdrefn sy'n gweithredu ysbryd y polisi sy'n bodoli. Dyma gyflwyno y byddai'n afresymol disgwyl i wrandawiad o'r fath gael ei gynnal gyda'r awdurdod llawn neu hyd yn oed y Panel Gweithredol. Yr arfer mewn cyrff llywodraeth leol eraill yw cael is-bwyllgor bychan o aelodau i wrando ar apeliadau neu gwynion. Argymhellir cael is-bwyllgor o dri aelod o'r Panel Gweithredol at y diben hwn.

**6.** O ran y weithdrefn yn y gwrandawiad, nid oes yr un o'r dogfennau hyn yn datgan yn benodol y bydd gan yr achwynydd yr hawl i fod yn bresennol nac i siarad. Fodd bynnag, fe ellid ystyried hyn yn fater o arfer da, gan y gallai eithrio'r achwynydd o'r gwrandawiad roi'r argraff na fyddai'r gwrandawiad yn un teg ac y byddai'r aelodau yn cael eu dylanwadu'n ormodol gan y swyddogion. Nid yw'r cyfeiriadau at gwynion yng ngham 3 yn mynd yn uniongyrchol at yr aelodau o anghenraid yn gorfod cael ei ddehongli i olygu y rhoddir yr hawl i'r achwynydd fynychu ac annerch y gwrandawiad, gan y gellid ymdrin â chwyn trwy ohebiaeth ysgrifenedig.

**7.** Wedi pwyso a mesur, argymhellir y dylai'r gwrandawiad gael ei seilio'n bennaf ar ddatganiad ysgrifenedig gan yr achwynydd ac ymateb ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cynnal y Gwasanaethau. Byddai'r datganiadau hyn yn cael eu rhannu â'r ddwy ochr cyn y gwrandawiad. Er y byddai'r

**Cyngor** *(parhad)*

achwynydd a’r swyddog yn mynychu’r gwrandawiad, at ddiben ateb unrhyw gwestiynau gan yr aelodau ynghylch eu datganiadau ysgrifenedig fyddai hyn. A chymryd bod yr Awdurdod yn cytuno â’r dull hwn, y drefn ar gyfer gwrandawiad fyddai:

- cyflwyniadau;
- aelodau o’r is-bwyllgor yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i’r achwynydd ynghylch yr hyn sydd yn ei ddatganiad ysgrifenedig;
- aelodau o’r is-bwyllgor yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i swyddog y gwasanaeth tân ac achub ynghylch ei ymateb ysgrifenedig;
- yr achwynydd a’r swyddog o’r gwasanaeth tân ac achub yn mynd allan tra bo’r is-bwyllgor yn ystyried y mater ac yn dod i gasgliadau;
- yr is-bwyllgor yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i’r achwynydd am ei benderfyniad.

**Gwybodaeth**

**8.** Yn dilyn ystyried y wybodaeth uchod bu i Banel Gweithredol yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar Hydref 9fed, gymeradwyo y weithdrefn a argymhellwyd ar gyfer ymdrin â’r gŵyn yn y trydydd cam sydd eisoes wedi’i derbyn. Argymhellodd hefyd y dylai’r Awdurdod fabwysiadu’r weithdrefn hon ar gyfer ymdrin â chwynion o’r fath yn y dyfodol.

**Argymhellion**

**9.** Gwahoddir yr Awdurdod i gadarnhau cynigion y Panel Gweithredol:

**9.1** fod y trefniadau uchod yn cael eu mabwysiadu at ddiben gwrando unrhyw gŵyn yn y trydydd cam yn y dyfodol;

**9.2** mai'r Panel Gweithredol ddylai fod yn gyfrifol am benodi is-bwyllgor o dri aelod i wrando ar gŵyn yn y trydydd cam; ac

**9.3** y dylai'r drefn ar gyfer gwrando unrhyw gŵyn yn y trydydd cam fod fel a nodir ym mharagraff 7.